



## **CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF**

### **BWRDD RHIANTA CORFFORAETHOL**

Cofnodion o gyfarfod y Bwrdd Rhianta Corfforaethol a gynhaliwyd Dydd Mawrth, 8 Mai 2018 am 10.00 am ym Bloc F, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypanyd CF40 2XX.

### **Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Bwrdd Rhianta Corfforaethol Aelodau oedd yn bresennol:-:-**

Y Cyngorydd G Hopkins (Cadeirydd)

Y Cyngorydd C Leyshon    Y Cyngorydd M Weaver  
Y Cyngorydd S. Rees-Owen    Y Cyngorydd R Yeo

### **Swyddogion oedd yn bresennol**

Mr G Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant  
Ms A Batley, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau i Blant  
Ms G Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Mynediad, Ymgysylltu a Chynhwysiant  
Mr P Nicholls, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol – Gwasanaethau  
Ms J Thomas, Rheolwr Gwella'r Gwasanaeth, Ymgysylltu a Chwynion  
Ms M Meredith, Rheolwraig y Gwasanaethau Preswyl  
Ms E Phipps-Magill, Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol (NYAS)  
Ms D Jones, Rheolwraig Gofal Plant Dechrau'n Deg  
Ms S Longhurst, Rheolwraig Materion Datblygiad a Chyflawniad Carfan  
Ms T Prosser, Pennaeth Gwasanaeth  
Ms R Spry, Gweithwraig Asesu a Datblygu Cynhalwyr Ifainc  
Ms C Williams, Rheolwraig Gwasanaeth - Plant Anabl  
Ms L Woolrich, Uwch Ymarferydd, Gwaith Cymdeithasol

#### **50 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Daeth ymddiheuriadau am golli'r cyfarfod oddi wrth Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol J. Rosser and J. James.

Cyflwynwyd pawb o amgylch y bwrdd.

#### **51 DATGAN BUDDIANT**

Yn unol â Chôd Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

#### **52 COFNODION**

**PENDERFYNODD** yr Aelodau dderbyn y cofnodion o gyfarfod y Bwrdd Rhianta Corfforaethol, ar 29 Ionawr 2018, fel rhai cywir.

Gofynnodd y Cadeirydd a oedd newyddion mwy diweddar bod mewn perthynas â Chofnod 42 - Midway Transitional Care. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, y Gwasanaethau Plant, yn dilyn y cyfarfod diwethaf, bod swyddogion yn y broses o adolygu llety a gwella cyfleoedd llety ar gyfer pobl ifanc 16+ ond nid oedd hyn wedi ei chwblhau eto.

## 53 CYNHALWYR IFAINC - ADRODDIAD BLYNYDDOL

Cafodd fideo, 'Tu ôl i Ddrysau Caeëdig', a grëwyd gan Gynllun Cynhalwyr Ifainc RhCT ei chwarae i'r Bwrdd. Roedd yn tynnu sylw at amrywiol faterion sy'n wynebu cynhalwyr ifainc.

Cyflwynodd y swyddogion yr adroddiad i'r Bwrdd, a oedd yn amlinellu'r gwaith sydd wedi cael ei wneud yn y gwasanaeth i Gynhalwyr Ifainc dros y flwyddyn ddiwethaf. Dysgodd yr Aelodau, er bod 293 o gynhalwyr ifainc yn hysbys i'r gwasanaeth ar hyn o bryd, mae dim ond 3 aelod o staff. Er bod y nifer o atgyfeiriadau wedi cynyddu 23%, roedd y Garfan wedi llwyddo i wneud y mwyaf o adnoddau cymaint â phosib. Siaradodd y swyddogion am fentrau cyffrous megis cyllid gan Lywodraeth Cymru a helpodd i gefnogi seibiannau a gweithgareddau teuluol yn ogystal â gwibdeithiau i'r cynhalwyr eu hunain.

Canmolodd yr aelodau'r fideo ac fe wnaethon nhw siarad yn bositif am yr achlysuron sydd wedi digwydd yn ddiweddar megis y Gynhadledd Cynhalwyr Ifainc. Roedd y rhain yn anfeiriadol ac roedden nhw'n effeithiol iawn wrth dynnu sylw at y gofynion y mae cynhalwyr ifainc yn eu hwynebu'n ddyddiol.

Canmolodd yr aelodau'r garfan ac roedden nhw'n falch o weld bod cynhalwyr ifainc yn defnyddio'r gwasanaeth ond fe wnaethon nhw fynegi pryderon ynghylch niferoedd staff. Sicrhaodd y Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant y Bwrdd pe bai cydweithwyr yn teimlo bod angen mwy o adnoddau i gynnal y gwasanaeth, yn dilyn adolygiad Cwm Taf sy'n cael ei amlinellu yn yr adroddiad, byddai'n ystyried rhoi rhagor o adnoddau i'r gwasanaeth. Y prif ffocws fyddai gwella'r hyn sydd eisoes yn cael ei ystyried yn wasanaeth hanfodol.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd y cynhalwyr ifainc yn derbyn cefnogaeth ddigonol gyda'u haddysg. Cafodd ei egluro bod pobl ifainc yn teimlo'n gryf bod lle i wella ac o ganlyniad, roedd system wobrwyo wedi'i gweithredu o fewn Ysgolion Cynradd. Nod hyn oedd i bob ysgol enwebu Hyrwyddwr a allai symud ymlaen i statws efydd, arian ac aur, gan olygu y byddai eu gwybodaeth a'u cefnogaeth yn cyrraedd lefel polisi ysgol gyfan yn y pen draw. Cafodd ei egluro bod y dull llwyddiannus yn cael ei addasu gan golegau a bod y dull wedi cael ei dreialu gan chwe ysgol gynradd. Roedd yr Aelodau'n falch o glywed bod y system wobrwyo yn golygu bod cynhalwyr ifainc yn cael eu cefnogi yn yr ysgol gan ffigwr gofal sy'n cydnabod y gofynion y maen nhw yn eu hwynebu. Ychwanegodd yr Is-gadeirydd y byddai hyn hefyd yn lleddfu euogrwydd rhieni.

Diolchodd y Cyfarwyddwr Grŵp i staff y Gwasanaeth Cynhalwyr Ifainc. Dywedodd bod y llwyddiant yn y maes wedi cael ei bwysleisio yn nhystiolaeth bwerus y bobl ifainc yn y Gwobrau Gofal Cymdeithasol.

### **PENDERFYNODD y Bwrdd:**

- a) Nodi cynnwys yr adroddiad;

- b) Bod Model Rhanbarthol Cwm Taf yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol ym mis Medi 2018.

#### **54 DARPARIAETH GOFAL PLANT COFRESTREDIG - Y NEWYDDION DIWEDDARAF**

Cyflwynodd y Rheolwr Gofal Plant Dechrau'n Deg yr adroddiad, gan roi'r newyddion diweddaraf i'r Aelodau ar lleoliadau gofal plant cofrestredig Arolygiaeth Gofal Cymru sy'n cael eu goruchwyllo gan y Gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar a Chymorth i Deuluoedd.

Esboniodd y swyddog fod 6 lleoliad gofal plant cofrestredig Arolygiaeth Gofal Cymru sy'n cael eu rhedeg gan yr Awdurdod Lleol sy'n anelu at fod yn lleoliadau blaenllaw RhCT. Ychwanegodd y byddai pedwar o'r lleoliadau yma'n cael eu harolygu o fewn y 12 mis nesaf. Dysgodd Aelodau bod gwiriadau monitro ansawdd mewnol, tebyg i'r gwiriadau sy'n cael eu cynnal gan Arolygiaeth Gofal Cymru, yn cael eu cynnal o fewn y lleoliadau lle mae swyddogion yn ymweld yn annisgwyl.

Roedd yr Aelodau'n falch o ddysgu, er bod gan bob lleoliad gofal plant lawer o gryfderau, bod cynlluniau gweithredu wedi cael eu datblygu i gwrdd â'r argymhellion ac i wella'r gwasanaeth ymhellach i gwrdd ag anghenion y plant mewn meysydd fel cynllunio yn seiliedig ar ddiddordebau'r plant a gweithredu proses adolygu gadarn.

Cafwyd trafodaethau ynghylch defnyddio'r Gymraeg ym mhob lleoliad gofal plant. Roedd yr Aelodau'n cydnabod yr angen am y gwasanaeth hanfodol yma ym mhob darpariaeth. Roedd y swyddog yn cydnabod bod pryderon, gan ddweud bod swyddog yn y Gwasanaeth Cymraeg wedi cynnal adolygiad o bob lleoliad ac wedi cynnig hyfforddi staff yn y brawddegau sylfaenol sydd eu hangen ar gyfer y rôl.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddog am y newyddion diweddaraf cadarnhaol a **PHENDERFYNWYD** nodi cynnwys yr adroddiad.

#### **55 ADRODDIAD BLYNYDDOL 'MISKIN'**

Cyflwynodd y Rheolwr Datblygu Carfan a Pherfformiad y newyddion diweddaraf i'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol am y gwaith a gafodd ei wneud gan Miskin yn 2016-17 yn dilyn integreiddio Prosiect Miskin a'r Garfan Ymateb Ymyriadau Cyflym ym mis Ebrill i ffurfio un ddarpariaeth.

Nododd yr Aelodau fod y data ar gyfer y ddwy garfan wedi'i gyflwyno ar wahân yn yr adroddiad. Cafodd yr Aelodau wybod bod y ddwy garfan bellach wedi integreiddio'n llawn. Byddai'r data ar gyfer 2017/18 yn cael ei gyfuno.

Mae astudiaethau achos a holiaduron wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad ar gyfer y bobl ifainc sy'n defnyddio'r gwasanaethau. Roedd y rhain yn rhoi barn a gwybodaeth uniongyrchol werthfawr i'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol.

Roedd Aelodau'n falch o weld yn dilyn ymyrraeth gan Brosiect Miskin, fe wnaeth 98% o blant aros allan o'r system Gwasanaethau Plant sy'n Derbyn Gofal yn 2016/17. Ar gyfartaledd osgowyd costau gwerth £1,799,944 drwy beidio â chael plant yn mynd i mewn i'r system gofal. Roedd hi hefyd yn bleser nodi'r ffigyrau a

gafodd eu hamlinellu yn yr ymyrraeth gan Garfan Ymateb Ymyriadau Cyflym. Roedd y data'n dangos faint o gostau oedd wedi cael eu hosgoi bob blwyddyn. Pe byddai'r plant yn aros allan o ofal nes eu bod yn 18, arbedion Carfan Ymateb Ymyriadau Cyflym y Gorllewin fyddai £1,437,000.32 ac arbedion Carfan Ymateb Ymyriadau Cyflym y Dwyrain fyddai £1,008,111.00.

Canmolodd yr Is-gadeirydd yr adroddiad, gan ddweud, er bod yr arbedion, wrth gwrs, yn drawiadol, roedd nifer y plant sy'n aros gartref oherwydd ymyrraeth yn amhrisiadwy.

Cafodd yr ymholiadau canlynol eu derbyn mewn perthynas â'r meini prawf ar gyfer atgyfeiriadau. Cafodd ei gynghori fod y rhain yn eang, gan gynnwys-

- Teuluoedd mewn argyfwng;
- Pobl ifainc sy'n agos at angen gofal;
- Y rhai sydd ar y gofrestr amddiffyn plant a'r;
- Rhai sydd mewn perygl o ddod o dan Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus (ACG)

Siaradodd y Cyfarwyddwr Grŵp yn gadarnhaol am ymyrraeth gynnar ac esboniodd ei fod wedi bod yn dyst i lwyddiant pobl ifainc yn dilyn defnyddio'r gwasanaeth.

Cyfeiriodd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifainc at dudalen 59 o'r adroddiad, holodd a fyddai 28 wythnos yn ddigon o amser i swyddogion weithio gyda'r teulu. Cafodd ei egluro bod y cyfnod yn seiliedig ar ymchwil a ddaeth i'r casgliad bod hyn yn ddigonol i deuluoedd oherwydd dwysedd y rhaglen. Serch hynny, cafodd yr Aelodau wybod bod y gwasanaeth yn seiliedig ar anghenion a bod wedi'i deilwra ar gyfer pob teulu, gan olygu bod rhai cyfnodau o ymglymiad yn llawer byrrach, a rhai yn hirach.

Holodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Mynediad, Ymgysylltu a Chynhwysiant sut mae'r gwasanaeth yn sicrhau parhad mewn addysg. Esboniodd y swyddog fod addysg yn gynhwysol o fewn y cynllun, gyda chysylltiadau cyfathrebu cryf rhwng swyddogion. Siaradodd y swyddog am y rhaglen 'Positive Futures' sy'n ceisio sicrhau bod pobl ifainc yn treulio un diwrnod yr wythnos y tu allan am nifer o oriau i feithrin hyder. Hefyd, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth am y 'Raglen Mynediad Teg' a gafodd ei sefydlu i ailintegreiddio plant yn ôl i'r ysgol yn gyflym.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddog am yr adroddiad, gan ddweud y byddai'r Bwrdd yn croesawu newyddion pellach ar y ddarpariaeth unigol yn y dyfodol.

**PENDERFYNODD** y Bwrdd nodi cynnwys yr adroddiad.

56

## **GWASANAETHAU CYMDEITHASOL - CWYNION A CHANMOLIAETHAU CHWARTEROL**

Rhoddodd y Rheolwr Cwynion, Ymgysylltu a Gwella Gwasanaeth grynodedd i'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol o'r trefnau gweithredu ac effeithiolrwydd gweithdrefn cwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol statudol rhwng 1 Hydref 2017 a 31 Rhagfyr 2017.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am nifer y cwynion a ddaeth i law,

natur y cwynion, ac unrhyw wersi a ddysgwyd, yn ogystal â manylu ar ymholiadau gan Gyngorwyr, Aelodau Cynulliad ac Aelodau Seneddol. Dywedodd y swyddog wrth yr Aelodau, er nad oedd unrhyw ganmoliaeth wedi'i amlinellu yn yr adroddiad, roedd nifer y sylwadau oedd yn canmol yn isel o ganlyniad i staff yn methu â'u cofnodi.

Nododd yr Aelodau, er mwyn bod yn fwy tryloyw, bod fformat yr adroddiad wedi newid ychydig i adlewyrchu nifer y cysylltiadau a gafodd eu gwneud gan y carfanau. Mae'r adroddiad yn dangos fod 50% o'r cysylltiadau wedi cael eu datrys yn gynnar ac roedd hyn yn eu hatal rhag cael eu cofnodi fel cwynion.

Roedd y swyddog yn cydnabod y bu cynnydd mewn cwynion yn erbyn staff, ond eglurodd mai dyma'r achos dros yr holl Awdurdodau Lleol, gyda llawer o achwynwyr yn beio'r gweithiwr cymdeithasol unigol am weithdrefnau safonol. Ychwanegodd y swyddog, ers i'r adroddiad gael ei gyhoeddi, bod y 5 cwyn oedd heb gael eu datrys bellach wedi cael eu datrys.

Roedd yr Aelodau'n hapus gyda fformat newydd yr adroddiad a'r ffaith ei fod yn gwneud y broses gwyno yn fwy tryloyw. Roedd y Cadeirydd yn falch o weld bod cynnydd yn nifer y ceisiadau gan Aelodau Seneddol ac Aelodau Cynulliad a dywedodd eu bod yn defnyddio'r llwybr cywir ar gyfer y broses gwyno. Mae hyn yn golygu y bydden nhw'n derbyn gwasanaeth cynt a mwy effeithlon.

**PENDERFYNODD** y Bwrdd nodi cynnwys yr adroddiad.

57

## **GWASANAETH EIRIOLAETH IEUENCTID CENEDLAETHOL**

Cyflwynodd Ms E Phipps-Magill adroddiad naratif chwarterol i'r Bwrdd ar ran y Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuencid Cenedlaethol am y cyfnod 1 Ionawr, 2018 tan 31 Mawrth, 2018.

Dysgodd y Bwrdd fod fformat yr adroddiad wedi'i ddiwygio i adlewyrchu'r newid ar lefel Genedlaethol ond bod hyn yn debygol o gael ei newid eto yn y dyfodol agos i gynnwys mwy o ddata cymharol.

Esboniodd y swyddog fod 38 o atgyfeiriadau wedi dod i law yn ystod y cyfnod. Roedd y rhain yn cynnwys 9 Cynnig Gweithredol o Eiriolaeth a 29 atgyfeiriad am faterion penodol. Roedd y rhan fwyaf o'r bobl ifainc a gafodd eu hatgyfeiro rhwng 12 oed ac 16 oed.

Roedd yr Aelodau'n falch o glywed bod RhCT yn arwain y ffordd o ran y Cynnig Rhagweithiol, oherwydd system adrodd gadarn yr Awdurdod Lleol. Cafodd ei egluro y byddai'r holl blant yn cael eu hysbysu o 1 Ebrill y *bydden nhw'n cael* cyfarfod Cynnig Gweithredol anffurfiol yn hytrach na'r dull presennol lle mae ganddyn nhw'r hawl i wrthod y cynnig. Cafodd Aelodau'r Bwrdd wybod y byddai sesiynau ymwybyddiaeth a galw heibio yn cael eu rhoi ar waith gyda Gweithwyr Cymdeithasol ac mewn cyfarfodydd Rheolwyr Gwasanaeth er mwyn sicrhau bod yr holl staff yn derbyn y newidiadau.

Cafwyd trafodaethau ynglŷn â'r system adrodd newydd, a chytunodd yr Aelodau y byddai angen tynnu sylw pellach at bwysigrwydd Eiriolaeth. Tawelodd Ms Phipps-Magill feddwl y Bwrdd bod Llywodraeth Cymru yn ceisio gwella'r fformat er mwyn sicrhau nad yw wedi'i seilio ar ddata yn gyfan gwbl, ond y byddai modd llunio adroddiadau cryno yn y cyfamser.

Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Plant fod y Tasglu Rhanbarthol wrthi'n ystyried dull i fesur canlyniadau eirioli ar lefel Genedlaethol. Gallai hyn gynnwys canlyniadau cadarnhaol llai, megis bod y bobl ifanc yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys neu fod eu hyder wedi cynyddu; neu ganlyniadau ar raddfa fwy, megis ailintegreiddio i addysg.

Rhoddodd yr Aelodau a'r swyddogion nifer o enghreifftiau o wasanaethau sy'n cynnwys data mwy personol:

- Gwasanaeth 'Eye to Eye' sy'n galluogi person ifanc i werthuso'r sesiynau;
- Teuluoedd yn Gyntaf sy'n cynnwys astudiaethau achos a;
- Siartiau seren i gofnodi'r daith trwy integreiddio

Diolchodd y Cadeirydd i'r Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuencid Cenedlaethol am yr wybodaeth ddiweddaraf a **PHENDERFYNWYD**:

- a) nodi cynnwys yr adroddiad.

#### **58 TRAFOD CADARNHAU'R CYNNIG ISOD YN BENDERFYNIAD:**

**PENDERFYNWYD** bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.

#### **59 ADRODDIADAU RHEOLIAD 32**

Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaethau Preswyl yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am ymweliadau o dan Reoliad 32 wedi eu cynnal yn y tri chartref i blant – Y Beddau, Bryndâr, a Nant-gwyn.

Amlinellodd y swyddog grynodedb o ganlyniadau'r arolygiad. **PENDERFYNWYD**:

- a) nodi cynnwys yr adroddiad.

#### **60 YMWELIADAU Â CHARFANAU'R RHENG FLAEN 2017-18**

**PENDERFYNWYD** nodi'r ymweliadau â charfanau'r rheng flaen gan Aelodau'r Bwrdd yn 2017-18.

**Daeth y cyfarfod i ben am 11.25 am**

**Cllr G Hopkins  
Cadeirydd.**